COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl196

Amseru: Cyn gynted a phosib

Teitl: Defnyddio Platform Zoom ar gyfer cyfarfodydd ymgysylltu cyhoeddus

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgysylltu

Crynodeb Gweithredol: O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae'r holl gyfarfodydd ymgysylltu cyhoeddus wyneb yn wyneb wedi'u hatal, gyda'r holl gyfarfodydd bellach yn digwydd yn rhithiol. Y platfform rhithwir cyfredol sydd ar waith yn Heddlu Dyfed-Powys yw Skype for Business, gyda chynlluniau ar waith i gyflwyno platfform Timau Microsoft wrth i'r Heddlu ddechrau'r broses o osod Microsoft 365 ar bob gliniadur a chyfrifiadur staff.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar y ddau blatfform uchod o ran rhwyddineb mynediad i aelodau'r cyhoedd. Yn benodol, nid yw'r ddau blatfform yn cynnig cyfleusterau cyfieithu ar yr y pryd, sy'n hanfodol I Swyddfa'r CHTh gan fod canran fawr o'r boblogaeth yn Dyfed-Powys yn siarad Cymraeg. Hefyd fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae'n ofynnol i ni roi amlygrwydd cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a galluogi defnyddio'r Gymraeg, yn unol â gofynion Safonau Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Mae platfform rhithwir Zoom yn cynnig cyfleusterau cyfieithu ar y pryd, ac mae wedi datblygu i fod yn un o'r llwyfannau mwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan y cyhoedd ers dechrau'r Pandemig. Er bod yr Heddlu wedi cyfyngu Zoom oherwydd pryderon diogelwch, mae Swyddfa'r CHTh wedi cael caniatâd yr Uwch Reolwr Gweithredol TGCh i ddefnyddio'r Llwyfan ar gyfer ein cyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd, cyn belled nad yw'r platfform yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd a fydd neu a allai gynnwys, data sensitif neu gyfrinachol.

Ni fydd yr Heddlu'n caniatáu i staff lawrlwytho'r app Zoom i offer TG sy'n eiddo I Heddlu Dyfed-Powys. Dim ond trwy borwyr gwe y bydd yr heddlu'n caniatáu mynediad i'r platfform.

Argymhelliad:
Cymeradwyo'r penderfyniad i ddefnyddio Zoom ar gyfer cyfarfodydd ymgysylltu cyhoeddus.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad:22.01.21**